Yr Eglwys

Darlleniad: Mathew 21: 12-17

Mae'n anodd arnom, Arglwydd,
ar drothwy canrif newydd,
yng nghanol yr holl ddryswch,
heb wybod i ba gyfeiriad i droi
na pha beth i'w weiddi.

Mae'n anodd arnom, Feistr,
wedi ein hesgymuno gan gymdeithas,
wedi ein gwthio i gornel,
yn gorfod gwylio gwaethaf diawlineb dyn,
a llithro gyda'r llif.

Aethost i'r deml, Arglwydd,
i ganol y prynu a'r gwerthu;
pobl yn mynd a dod
driphlith draphlith.
Aethost i ganol y sŵn a'r annibendod,
i ganol y clebran crefyddol.
Aethost i daflu'r cyfan allan ...
Allan lawr y grisiau ...
Allan trwy'r drysau
Allan i'r gwter.
Yn gwmni i ti roedd y cleifion a'r plant,
llu o blant yn cadw sŵn, yn canu, yn gweiddi, yn chwerthin ...
Plant yn rhedeg o gwmpas fel pethau ddim yn gall.

Tyrd, os gweli di'n dda, i deml dy Eglwys heddiw.
Gyr allan yr hyn oll sy'n atal ei heffeithiolrwydd yn dy fyd.
Gyr allan ein hofnau a'n hansicrwydd -
ofn mentro; ofn newid; ofn arbrofi.
Tafla i lawr gadeiriau ein crefydd denau, ddof.
Dymchwel fyrddau ein rhagfarn a chenfigen,
Maddau inni ein hystrydebau.

‘N’ad im fodloni ar ryw rith
O grefydd, heb ei grym;
Ond gwir adnabod Iesu Grist
Yn fywyd annwyl im.’

Boed i ninnau fel y cleifion hynny
deimlo dy nerth yn ein hadnewyddu.
Boed i ninnau fel y plant hynny
allu gweiddi yn y deml,
Hosanna, hosanna i Fab Dafydd!

Yn wir, Arglwydd,
ynot ti llawenhawn,
atgyfnerthwn,
gorfoleddwn.
Awn allan gyda thi,
nid yn ein dillad dydd Sul glân
ond yn ein dillad gwaith.
Awn allan gyda thi, ein Bendigeidfran,
i bontio’r agendor rhwng y materol a’r ysbrydol,
y seciwlar a’r cysegredig;
rhwng dy Eglwys a’th fyd ...
rhwng Duw a phobl. Amen.

Owain Llyr Evans